

Llyfryn
Arolwg Iechyd Coed
OPAL



I gael rhagor o wybodaeth ac i gyflwyno eich data:
www.opalexplorenature.org

Rhagymadrodd



Mae coed yn hanfodol. Maen nhw'n helpu i atal newid yn yr hinsawdd drwy ddal a storio carbon ac yn lleihau effaith llifogydd ac erydu ar bridd. Maen nhw'n darparu incwm ac yn cynnal swyddi ar ffurf cynhyrchu pren a thwristiaeth. Maen nhw'n hanfodol i fywyd gwylt hefyd gan eu bod yn darparu cartref a bwyd i adar, pryfed a mamaliaid.



Derw



Ynn



Castanwydd y Meirch


Fodd bynnag, mae'n coed o dan fygythiad. Mae'r nifer o blâu a chlefydau sy'n ymosod arnynt wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Pam mae hyn wedi digwydd? Credir bod dau ffactor yn bwysig:

1. Mae'r masnachu cynyddol mewn planhigion o bob rhan o'r byd yn cynyddu'r risg y bydd plâu a chlefydau newydd yn dod i'r wlad.
2. Unwaith maen nhw yma, efallai y bydd pryfed yn gallu goroesi oherwydd ein hafau cynhesach ac efallai y bydd clefydau'n lledaenu'n gyflymach wrth inni gael mwy o law yn yr haf.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gweithredu i warchod coed drwy gefnogi mwy o ymchwil i blâu a chlefydau ar goed, cynyddu'r rhagofalon i gadw plâu a chlefydau allan o'r wlad, a gweithio gyda grwpiau a rhwydweithiau lleol sy'n gallu helpu drwy sylwi ar fygythiadau newydd sy'n cyrraedd y DU.

Arolwg yw hwn gan OPAL i edrych ar gyflwr ein coed. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r nifer o blâu a chlefydau sy'n ymosod ar goed wedi cynyddu, gan arwain at ddirywiad yn iechyd coed ac, mewn rhai achosion, at golli coed. Er mwyn rheoli'r problemau hyn mor effeithiol â phosib, mae angen inni astudio ein coed a chofnodi gwybodaeth am eu cyflwr ac unrhyw blâu a chlefydau sy'n cael eu canfod.

1



Pam cynnal yr Arolwg Iechyd Coed?



Drwy gymryd rhan yn Arolwg Iechyd Coed OPAL ac anfon eich canlyniadau atom:

- Byddwch yn ein helpu i ddarganfod mwy am iechyd cyffredinol ein coed ac yn darparu gwybodaeth hollbwysig am rai o'r plâu a'r clefydau sy'n gallu effeithio ar goed Derw, Ynn a Chastanwydd y Meirch.
- Efallai hefyd y gwelwch chi un o'r plâu a'r clefydau gwaethaf sy'n fygythiad difrifol i'n coed.

Gall gwyddonwyr ddefnyddio'ch canlyniadau a byddwch yn dod yn rhan o'r rhwydwaith cadw gwylidwriaeth, rhwydwaith o bobl ar hyd a lled y wlad sy'n gwarchod ein coed.

Plâu a chlefydau

Yn gyffredinol, pryfed neu anifeiliaid bach sy'n gwneud niwed i blanhigion neu goed yw plâu. Caiff clefydau, ar y llaw arall, eu hachosi gan ficrobau niweidiol (pathogenau), sy'n cynnwys rhai mathau o ffyngau a bacteria. Mae nhw'n ficrosgopig felly dim ond y symptomau y mae modd eu gweld fel arfer, nid yr achos. Mae llawer o'r plâu a'r clefydau sy'n effeithio ar ein coed yn gyffredin neu ar led yn eang, a'u heffeithiau'n fyrhoedlog. Mae hyn yn arbennig o wir am blâu neu bathogenau brodorol gan fod y coed sy'n eu lletya wedi esblygu yr un pryd a'u bod wedi ymaddasu i'w gilydd dros y milenia. Mae plâu a gyflwynir i'r wlad yn gallu bod yn llawer mwy niweidiol gan nad yw'r coed maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw wedi cael cyfle i ddatblygu ymwrthedd.


Mae casglu gwybodaeth am y plâu a'r clefydau sy'n effeithio ar goed Prydain yn helpu gwyddonwyr i ddeall eu heffeithiau a'u dosbarthiad, ac ateb cwestiynau sy'n gofyn a yw'r lefelau o ddifrod sy'n cael eu hachosi gan blâu a chlefydau penodol yn mynd yn fwy neu'n llai difrifol. Bydd hefyd yn help i ymchwilyr ganfod i ba raddau yr effeithir ar goed penodol neu rywogaethau o goed gan amryw o blâu a chlefydau. Weithiau mae'r rheini na fyddent ond yn achosi mân ddifrod mewn coeden iach yn gallu gweithio gyda'i gilydd, gan wneud y goeden yn wan a bregus, a hyd yn oed achosi iddi edwino.




Pryf cennog Castanwydd:
pla coed




Cancr Nectria ar onnen:
clefyd coed



Cylchred bywyd coeden



3



Paratoi arolwg

Mae'r Arolwg hwn yn cynnwys tri gweithgaredd:

Gweithgaredd 1: Dod i adnabod eich coeden (tudalennau 6-10)

Gweithgaredd 2: Plâu a chlefydau ar goed Derw, Ynn a Chastanwydd y Meirch (tudalen 11)

Y Dihirod Gwaethaf: Helpwch ni i ganfod y bygythiadau mwyaf difrifol i'n coed (tudalen 12)

Gallwch gynnal Arolwg Iechyd Coed OPAL yn unrhyw le. Y cyfan sydd ei angen yw mynediad diogel at un neu fwy o goed llydanddail - derwen, onnen neu gastanwydden y meirch yw'r rhai gorau. Mae **Canllaw Adnabod Coed** wedi ei gynnwys yn eich pecyn arolwg.

Offer hanfodol i fynd gyda chi

Pecyn Arolwg Iechyd Coed OPAL sy'n cynnwys **Llyfryn** yr arolwg*, **Canllaw Adnabod Plâu a chlefydau ar goed**, **Canllaw Adnabod Coed**, **tâp mesur** a **chwyddwydr** OPAL




Eitemau defnyddiol ar gyfer yr awyr agored (os oes gennych chi nhw)

- Map neu ddyfais System Leoli Fyd-eang
- Ffôn symudol (i'w ddefnyddio mewn argyfwng)
- Camera

Mae'n well cynnal yr arolwg pan mae'r coed yn eu dail o fis Mai tan ddiwedd mis Medi. Gofalwch nad ydych chi'n gwneud unrhyw ddfrod i'r amgylchedd yn ystod yr arolwg.

* Gallwch lawrlwytho mwy o dafenni cofnodi o wefan OPAL.





Gwaith maes diogel




Mae coed a choetiroedd yn y DU yn lleoedd diogel ar y cyfan. Defnyddiwch eich synnwyr cyffredin – eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o'r risgiau posib wrth wneud unrhyw fath o waith maes. Gwnewch asesiad risg os oes rhaid.

- Gwisgwch yn briodol ar gyfer y tywydd. Edrychwch ar ragolygon y tywydd cyn mynd allan. Peidiwch â gwneud arolwg mewn tywydd gwyntog.
- Peidiwch â chynnal arolwg ar eich pen eich hun. Ewch ag o leiaf un person arall gyda chi.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Cariwch ffôn symudol wedi'i gwefru'n llawn rhag ofn y bydd angen ichi alw am help a gwnewch yn siŵr fod gennych signal da i'ch ffôn symudol. Ewch â pheycyn cymorth cyntaf bach gyda chi. Rhaid goruchwylio plant ifanc.
- Dylech osgoi coed sydd â changhennau wedi torri. Cyn dechrau'r arolwg, edrychwch yn ofalus o bellter diogel am ganghennau sy'n hongian oddi ar y goeden, a allai ddisgyn. Edrychwch ar y coed gerllaw, hefyd. Gallwch roi gwybod am unrhyw beryglon i'ch cyngor lleol drwy ddefnyddio www.fixmystreet.com.
- Does dim angen dringo coed i wneud yr arolwg hwn. Peidiwch â dringo ar bentyrrau o foncyffion.
- Edrychwch yn ofalus ar yr ardal i chwilio am unrhyw arwyddion o berygl. Chwiliwch am unrhyw arwyddion rhybuddio – talwch sylw i'r arwyddion hyn a dilynwch y cyfarwyddiadau lle mae rhaid. Cadwch lygad am frigau a changhennau sy'n hongian yn isel, tir anwastad, bonion coed, pren marw ac unrhyw beth arall a allai achosi codwm neu anaf. Gwylwch am blanhigion pigog. Peidiwch ag arolygu coed sydd wrth ymyl llyn neu afon.
- Byddwch yn ymwybodol o weithgareddau eraill sy'n digwydd o'ch cwmpas. Cymrwch ofal arbennig os oes unrhyw waith coedwigaeth, torri gwrychoedd neu waith trin coed yn mynd rhagddo – efallai y byddai'n well dewis safle arall.
- Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwneud yr arolwg ac yn arbennig cyn bwyta. Mae nifer fach o blanhigion, madarch a phryfed yn wenwynig neu gallant achosi brech neu gosi ar y croen. Mae lindys rhai gwyfynod yn gallu achosi adwaith alergaidd annymunol, oherwydd eu blew gwenwynig, felly dylech osgoi unrhyw gyswllt. Os cyffyrddwch chi â nhw yn ddamweiniol, golchwch y rhan yr effeithiwyd arni yn drylwyr, a cheisiwch gyngor meddygol os cewch chi adwaith.

Mae'n bwysig gofalu am yr amgylchedd tra byddwch chi allan hwnt ac yma.

- Dylech lanhau unrhyw laid a dail oddi ar eich sgidiau fel na fyddwch yn lleadaenu plâu a chlefeydau y tro nesaf y byddwch yn mynd allan.
- Peidiwch â tharfu ar unrhyw fywyd gwylt, yn cynnwys nythod adar.
- Gadewch yr ardal fel yr oedd cyn ichi gyrraedd a pheidiwch â gadael unrhyw sbwriel.

Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelwch ar gael gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau www.rosopa.com/leisuresafety



Mae'r arolwg yn dechrau yma

Gweithgaredd 1: **Dod i adnabod eich coeden**

Gallwch gynnal yr arolwg yn unrhyw le, cyn belled â'ch bod yn cael caniatâd. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw mynediad saff at un neu fwy o goed llydanddail (coed â dail llydan nid nodwyddau na dail cennog fel a geir ar gonwydd). Mae Gweithgaredd dau ar gyfer Derw, Ynn a Chastanwydd y Meirch yn unig, felly dewiswch y coed hyn yn gyntaf os yw'n bosib, ond gallwch arolygu coeden o unrhyw rywogaeth yng Ngweithgaredd 1. Cofiwch anfon eich canlyniadau i OPAL ar ôl i chi orffen.

A Dechrau'r arolwg

1. Dyddiad yr arolwg _____

2. Pwy sy'n gwneud yr Arolwg Aer gyda chi heddiw?


- | | |
|--|---|
| <input type="checkbox"/> Ysgol gynradd | <input type="checkbox"/> Ysgol uwchradd |
| <input type="checkbox"/> Grŵp ieuencid | <input type="checkbox"/> Grŵp gwirfoddol o oedolion |
| <input type="checkbox"/> Ffrindiau neu deulu | <input type="checkbox"/> Coleg / Prifysgol |
| <input type="checkbox"/> Arall | |

3. Ydych chi'n ymwneud â gwaith coed neu goedwigaeth?

- Nac ydw
- Ydw, fel rhan o grŵp neu gymdeithas wirfoddol
- Ydw, rydw i'n gweithio yn y diwydiant

4. Cofnodwch leoliad eich safle (cod post / cyfeirnod grid OS / darlenniad GPS).

Mae rhagor o gymorth ar gael ar wefan OPAL os ydych chi'n ansicr am yr union leoliad.



5. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio ardal eich arolwg orau?



Stryd



Gardd



Ysgol



Parc



Cae agored



Gwrych



Yrnyl coetir



Y tu mewn i goetir

Arall (manylwch) _____

6. Beth yw'r gorchudd ar y llawr o amgylch gwaelod y goeden?
Dewiswch un o'r canlynol.



Glaswellt neu
blanhigion eraill



Pridd noeth



Wyneb caled
(e.e. palmant)



Dail wedi
disgyn

7. Os oes dail wedi disgyn o dan y goeden, faint sydd yna?



Ychydig



Llawer




Mae'r llawr wedi'i orchuddio'n llwyr

B Adnabod

8. Cofnodwch enw'r goeden (y rhywogaeth)

Gallwch ddefnyddio'r **Canllaw Adnabod Coed** i'ch helpu.

7




C Nodweddion y goeden

9. Mesurwch gylchfesur (cylchedd) y boncyff, 1.3 m (130 cm) uwchlaw'r ddaear.

gylchfesur = _____ centimetr

10. Mesurwch uchder y goeden. Os yw eich coeden yn rhy dal i'w mesur yn ddiogel o'r ddaear, mae yna gyfarwyddiadau ar sut i fynd ati ar dudalen gefn y **Llyfryn** hwn.

uchder = _____ metr



11. Ydy'r goeden yn dalach neu'n fyrrach na'r rhan fwyaf o'r coed eraill gerllaw?

Byrrach na'r rhan fwyaf

Yr un uchder â'r rhan fwyaf

Talach na'r rhan fwyaf

Does dim coed eraill gerllaw

D Y Brigdyfiant

Y **brigdyfiant** yw'r gorchudd dail a changhennau ar ben y boncyff (gweler y diagram isod). Cerddwch oddi wrth y boncyff er mwyn gweld y goeden yn well. Anwybyddwch unrhyw ganghennau isel o dan y brigdyfiant. Yn yr haf mae gan goeden iach orchudd llwyr o ddail, ond gall plâu a chlefydau achosi i frigau, canghennau a hyd yn oed y boncyff golli dail a marw ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.



Y brigdyfiant

12. Pa un o'r rhain sy'n dangos siâp y goeden orau?




Yn ymledu

Hirgrwn

Gwyntyll

Colofn

Côn



13. Sefwch o dan y goeden ac edrychwch i fyny. Amcangyfrifwch faint o'r olygfa drwy'r brigdyfiant sy'n ddail. Dewiswch y darlun sy'n cyfateb orau o'r pum opsiwn.

<p>dim ond awyr a changhennau i'w gweld</p>				<p>dim awyr i'w gweld</p>
<input type="checkbox"/> Dim dail	<input type="checkbox"/> 25%	<input type="checkbox"/> 50%	<input type="checkbox"/> 75%	<input type="checkbox"/> Dail y gyd

14. Ydych chi'n gallu gweld unrhyw bren marw (canghennau heb unrhyw ddail na brigau arnynt)? Nac ydw Ydw

Os YDW, faint o bren marw sydd yna?

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Llai na chwarter y goeden | <input type="checkbox"/> Rhwng chwarter a hanner |
| <input type="checkbox"/> Rhwng hanner a thri chwarter | <input type="checkbox"/> Mwy na thri chwarter |

E Dail


Os bydd dail yn troi'n frown neu'n felyn cyn yr hydref, mae'n arwydd fod rhywbeth o'i le. Gall llawer o ffactorau gwahanol wneud i ddail frownio, yn cynnwys pryfed a halen môr. Gall problem gyda'r gwreiddiau wneud i ddail felynu, ac mae'n aml yn arwydd o broblem tymor hwy.

15. Pa fathau o frownio allwch chi ei weld ar y goeden? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

<input type="checkbox"/> Ymyl brown ar ddail	<input type="checkbox"/> Smotiau brown	<input type="checkbox"/> Dail yn frown i gyd	<input type="checkbox"/> Dim

16. Os oes brownio ar y dail, faint allwch chi ei weld ar y goeden?

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Llai na chwarter y goeden | <input type="checkbox"/> Rhwng chwarter a hanner |
| <input type="checkbox"/> Rhwng hanner a thri chwarter | <input type="checkbox"/> Mwy na thri chwarter |




17. Pa fathau o felynu allwch chi ei weld ar y goeden?
Ticiwch bob un sy'n berthnasol.



Ymyl melyn ar ddail



Smotiau melyn



Dail yn felyn i gyd



Dim

18. Os oes melyn ar y dail, faint allwch chi ei weld ar y goeden?

Llai na chwarter y goeden

Rhwng chwarter a hanner

Rhwng hanner a thri chwarter

Mwy na thri chwarter

19. Allwch chi weld unrhyw rai o'r arwyddion isod o ddfrod pryfed ar y dail?



Dail tyllog: tyllau drwy'r dail



Brychau ar y dail: mae'r haenau uchaf ac isaf mewn un darn ond mae'r meinwe gwyrdd y tu mewn wedi troi'n frown neu wedi diflannu



Chwydd deilen: twmpathau a thyfiannau ar y dail

F Bywyd gwyllt

20. Mae'n fuddiol gwybod sut mae'r goeden yn cynnal bioamrywiaeth. Cofnodwch unrhyw anifeiliaid, arwyddion o weithgarwch gan anifeiliaid, planhigion neu ffyngau a welwch.

Adar neu nythod adar

Gwiwerod

Tyllau anifeiliaid yn y bôn

Corynod / pryfed cop

Twll mawr yn y boncyff


Eiddew

Mwsogl / cennau / algâu

Pryfed

Ffyngau

Arall



Gweithgaredd 2: **Plâu a chlefydau ar goed Derw, Ynn a Chastanwydd y Meirch**



Mae Gweithgaredd 2 yn edrych ar y plâu a'r clefydau a geir ar goed Derw, Ynn a Chastanwydd y Meirch. Os buoch yn edrych ar Dderwen, Onnen neu Gastanwydden yng Ngweithgaredd 1, dylech weithio ar yr un goeden yng Ngweithgaredd 2. Cyfeiriwch at y **Canllaw Adnabod Plâu a Chlefydau Coed** er mwyn gweld lluniau a chael mwy o wybodaeth.

A Derw

Ai dyma'r goeden a arolygwyd yng Ngweithgaredd 1?

ie nage



Llwydni Derw



Afalau'r Derw



Gwyfyn deilrolwr



Nychdod Derw

B Ynn

Ai dyma'r goeden a arolygwyd yng Ngweithgaredd 1?

ie nage



Gwyfyn blagur Ynn



Chwydd all-weddau Mair



Cancr Nectria



Nychdod Ynn

C Castanwydd y Meirch

Ai dyma'r goeden a arolygwyd yng Ngweithgaredd 1?

ie nage



Clwyf smotiau Castanwydd




Lindys dail Castanwydd



Cancr gwaedlyd Castanwydd



Cen Castanwydd





Y Dihirod Gwaethaf



Trowch at **Canllaw Adnabod Plâu a Chlefydau Coed** i weld ffotograffau a chael rhagor o wybodaeth.

Mae'r Dihirod Gwaethaf yn blâu sy'n cael sylw mewn deddfwriaeth iechyd planhigion sy'n golygu, os dewch chi ar eu traws, fod rhaid ichi hysbysu swyddogion y llywodraeth er mwyn iddynt gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w rheoli. Os ydych yn meddwl eich bod wedi dod ar eu traws (ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan i'ch helpu i'w hadnabod) rhaid ichi roi gwybod i swyddogion y Comisiwn Coedwigaeth ar unwaith, drwy:

- App TreeAlert: www.forestry.gov.uk/treealert
- Ffônio: 08459 335577 (Cymru a Lloegr), 0131 314 6156 (yr Alban) neu 0300 200 7847 (Iwerddon)
- I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.forestry.gov.uk/forestresearch


Nawr anfonwch eich canlyniadau atom

Mae'n wirioneddol bwysig eich bod yn anfon eich canlyniadau atom er mwyn inni allu monitro iechyd coed a thracio lledaeniad plâu a chlefydau. Diolch ichi am gwblhau'r arolwg.



Cofnodwch y canlyniadau ar www.opalexplorenature.org (sganiwch y cod QR i gael y ddolen). Neu anfonwch nhw atom drwy Radbost i

Freepost RSCH-CKYJ-HYYC, OPAL,
Centre for Environmental Policy,
Imperial College London, Llundain, SW7 2AZ



Beth mae'ch canlyniadau yn ei olygu?



Bydd y canlyniadau o Arolwg Iechyd Coed OPAL yn dweud wrthym am iechyd a chyflwr coed mewn coetiroedd, parciau, strydoedd a lleoliadau eraill ar draws y DU a byddant yn darparu gwybodaeth bwysig am bresenoldeb posib rhai plâu a chlefydau coed allweddol.



Nid oes arolwg cenedlaethol fel hwn wedi cael ei gynnal mor eang o'r blaen, felly bydd eich canlyniadau yn help inni ganfod mwy am gyflwr coed a choetiroedd ar draws y DU ar hyn o bryd. Mae'n dra thebygol y byddwch chi'n casglu gwybodaeth am goed unigol nad oes neb wedi'u harolygu o'r blaen.

Bwriad Gweithgaredd 1 yw casglu gwybodaeth am leoliad, math, maint a chyflwr pob coeden. Drwy edrych yn ofalus ar yr agweddau hyn, bydd eich canlyniadau yn ein helpu i ddysgu am iechyd cyffredinol eich coeden.




Mae casglu gwybodaeth am rywogaethau eraill a allai fod yn byw ar y goeden neu o'i chwmpas, yn cynnwys pryfed, adar a mamaliaid, yn help inni ddeall nid dim ond iechyd y goeden, ond iechyd yr amgylchedd a'r cynefinoedd cyfagos.

Bwriad Gweithgaredd 2 yw darparu gwybodaeth gyfredol am blâu a chlefydau sy'n targedu tair o'n rhywogaethau coed mwyaf cyfarwydd, sef Derw, Ynn a Chastanwydd y Meirch. Er bod y plâu a'r clefydau hyn yn effeithio ar ymddangosiad a chyflwr y goeden, yn gyffredinol nid yw llawer ohonynt yn fygythiad difrifol i'r rhywogaeth. Serch hynny mae angen inni wybod pa mor aml maen nhw'n bresennol a ble maen nhw i'w cael er mwyn inni gadw llygad ar y problemau coed hyn. Yn bwysig, mae i rai o'r plâu a'r clefydau yr ydych chi efallai wedi'u gweld y potensial i achosi difrod mwy difrifol i goed, ac yn yr achosion hyn gallai'r wybodaeth yr ydych chi'n ei darparu fod yn dyngedfennol i ddiogelu dyfodol ein tirwedd.

Dyna pam i ni hefyd ofyn ichi gadw llygad am y Dihrod Gwaethaf – mae'r rhain ymysg y bygythiadau mwyaf difrifol i goed yn y wlad hon ac os ydych wedi sylwi ar unrhyw un ohonynt byddwch wedi darparu gwybodaeth hynod o bwysig.


I gael rhagor o wybodaeth am iechyd coed ewch www.opalexplornature.org or www.forestry.gov.uk/forestresearch



Os ydych chi wedi cael blas ar adnabod planhigion ac anifeiliaid yn yr arolwg hwn, gallwch gael mwy o help gyda hyn ar wefan iSpot (www.ispotnature.org) – mae yno luniau o'r anifeiliaid a'r planhigion rydych chi wedi dod ar eu traws.



Mae'r gweithgaredd hwn yn un o gyfres o arolygon natur a ddatblygwyd gan raglen Open Air Laboratories (OPAL) i'ch helpu i ddod i adnabod eich amgylchedd lleol a chasglu data gwyddonol pwysig ar yr un pryd. Yn sgil arian gan y Gronfa Loteri Fawr, mae ein rhwydwaith o brifysgolion, amgueddfeydd a sefydliadau bywyd gwyllt blaenllaw wedi bod yn datblygu gweithgareddau gwyddonol i ddinasyddion ers 2007 ac mae ein hadnoddau ar gael i bawb ledled y DU.



Os ydych chi wedi mwynhau'r arolwg hwn, beth am roi cynnig ar un arall? Fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch yn www.opalexplornature.org/surveys

Hefyd, gallwch weld beth mae eich data wedi ei ddatgelu hyd yn hyn a chanfod llawer o ddulliau pellach o astudio'r amgylchedd ar ein gwefan: www.opalexplornature.org



www.facebook.com/opalexplornature



@OPALnature



Animal & Plant Health Agency

THE UNIVERSITY of York


EXPLORE WITH PLYMOUTH UNIVERSITY

Imperial College London

Datblygwyd y pecyn hwn gan: David Slawson^{1,3}, Clare Hall¹, Charles Lane¹, Alison Melvin², Andrew Moffat², David Rose², Joan Webber², Linda Davies³, Laura Gosling³, Alison Smith⁴, Alison Dyke⁵, Simon Norman⁶. Ffotograffau © Forestry Commission Picture Library & OPAL. Golygwyd gan: Roger Fradera³, Laura Gosling³, Poppy Lakeman Fraser³, Kate Martin³ a David Slawson^{1,3}. ¹FERA, ²Forest Research, ³Imperial College London, ⁴Pryfysgol Plymouth, ⁵Pryfysgol Efrog, ⁶Cyngor Astudiaethau Maes. © OPAL 2015. Cedwir pob hawl.



ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED






1

Mesur uchder y goeden

Os yw'ch coeden yn rhy dal i'w mesur â thâp mesur, defnyddiwch y canllaw hwn (Cwestiwn 10). Bydd angen dau berson arnoch.

1 Mae'r person cyntaf yn sefyll wrth ymyl y goeden.



2

2 Mae'r ail berson yn cymryd y Llyfryn hwn ac yn cerdded yn ôl oddi wrth y goeden, gan ddal y cerdyn hyd braich. Rhaid i frig y goeden fod ar yr un lefel a thop y cerdyn a gwaelod y goeden fod ar yr un lefel â gwaelod y cerdyn.

3 Pan fydd y sawl sydd â'r cerdyn wedi cyrraedd y lle iawn, dylai gyfarwyddo'r person sydd wrth y goeden i bwyntio at y boncyff yn union ar lefel y marc 10% sydd i'w weld ar waelod y canllaw hwn.



3

4 Unwaith y bydd y sawl sydd wrth y goeden wedi canfod y pwynt cywir, defnyddiwch y tâp mesur i fesur uchder y pwynt hwn mewn metrau uwchlaw'r ddaear.

5 Bydd hyn yn rhoi 10% i chi o uchder y goeden. Lluoswch y ffigur hwn â 10 i gael gwybod beth yw union uchder y goeden.



4

Os yw'r goeden yn dal iawn, defnyddiwch y marc 5% ar ochr y canllaw hwn yn lle'r 10%. Lluoswch y ffigur ag 20 wedyn i gael gwybod union uchder y goeden.

10%

5%

Gwaelod y goeden